

Cydymffurfio â Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2017: Cwmpasu

Nodyn cyfarwyddyd

Cyfeirnod: GN078

Perchennog y ddogfen: Pennaeth Busnes, Rheoleiddio a Thrwyddedu

Beth yw diben y ddogfen hon?

Mae'r nodyn cyfarwyddyd hwn yn darparu gwybodaeth ar sut i sgrinio prosiectau, cynlluniau a gweithgareddau er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017 ('Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr' o hyn ymlaen).

Ar gyfer pwy y mae'r ddogfen hon?

Mae'r canllawiau hyn ar gyfer unrhyw un sy'n dylunio prosiectau a gweithgareddau a allai effeithio ar yr amgylchedd dŵr.

Rhaid i chi ddarparu gwybodaeth cydymffurfio â Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr i ategu unrhyw gais ar gyfer gweithgareddau a allai achosi dirywiad i gorff dŵr, neu atal hwnnw (neu ardaloedd gwarchoddedig) rhag cyflawni'r amcanion a nodir yn y cynllun rheoli basn afon.

Dylech fod yn ymwybodol ei bod yn debygol y bydd angen i chi gyflogi ymgynghorydd sydd â phrofiad a chymwysterau addas i gynnal asesiad cydymffurfedd Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Efallai y bydd arnoch angen fewnbwn technegol arbenigol hefyd, yn dibynnu ar y gweithgaredd a'r effeithiau posibl.

Manylion cyswllt ar gyfer ymholiadau ac adborth

Y Tîm Cynllunio Dŵr Integredig, Y Gyfarwyddiaeth Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu

WFDWales@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Hanes y fersiynau

Fersiwn y	Dyddiad	Crynodeb o'r newidiadau
1.0	26 Mehefin	Cyhoeddwyd y ddogfen
2.0	5 Mehefin	Mân newidiadau o ran y testun

Dyddiad adolygu: Rhagfyr 2028

I roi gwybod am faterion neu broblemau gyda'r canllawiau hyn, anfonwch neges e-bost i: guidance.development@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk.

Cam 2: Cwmpasu

Bydd cwmpasu yn asesu effeithiau posibl yr holl weithgareddau sy'n rhan o'ch cynnig, gan ddefnyddio'r dull canlynol:

- Ffynonellau – os gall y gweithgareddau arfaethedig effeithio ar yr amgylchedd dŵr.
- Llwybrau – sut y gall gweithgareddau effeithio ar yr amgylchedd dŵr.
- Derbynyddion – elfennau o'r amgylchedd dŵr yr effeithir arnynt gan y gweithgareddau arfaethedig.

Bydd angen i chi gwblhau asesiad manwl (Cam 3), os byddwch yn nodi'r canlynol yn ystod y gwaith cwmpasu:

- Risg bosibl o ddirywiad – mae hyn yn cynnwys dirywiad ar lefel elfen nad yw'n arwain at ddirywiad yn statws cyffredinol y corff dŵr.
- Y posibilrwydd o atal y corff dŵr neu'r ardal warchoddedig rhag cyflawni ei amcanion.

Yn ystod y cam cwmpasu rhaid i chi nodi'r holl risgiau posibl sy'n gysylltiedig â'ch cynnig i bob derbynydd. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Hydroleg a morffoleg (hydromorffoleg)
- Ansawdd dŵr
- Bioleg

Mae'r derbynyddion hyn yn seiliedig ar elfennau ansawdd sy'n ffurfio statws corff dŵr wyneb. Rhaid i chi hefyd ystyried y canlynol:

- Cyrff dŵr daear
- Ardaloedd gwarchoddedig
- Cynefinoedd a rhywogaethau sensitif

Bydd angen i chi hefyd ystyried gwaith dros dro a rhywogaethau estron goresgynnol gan y gallant achosi dirywiad i statws corff dŵr.

Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am bob derbynydd yn yr adran isod. Defnyddiwch yr wybodaeth hon i'ch helpu i gwblhau asesiad 'Cam 2: Cwmpasu':

- Cam 1: cysylltu pob gweithgaredd sydd wedi ei gynnwys yn eich cynnig â derbynyddion ar gyfer pob corff dŵr perthnasol.
- Cam 2: cwmpasu'r prosiect 'ar ei ben ei hun'.
- Cam 3: ystyried y potensial ar y cyd a/neu effeithiau cronrus.
- Cam 4: crynodeb cyffredinol o'r cwmpasu.

Cynhwyswch bob corff dŵr a gafodd ei sgrinio fel rhan o Gam 1 y gallai'r cynnig effeithio arno. Gellir hepgor cyrff dŵr o gwmpas os gellir dangos na fydd unrhyw effeithiau. Rhaid i chi roi cyfiawnhad clir pam y mae unrhyw gyrff dŵr wedi eu hepgor o gwmpas.

Gallwch ddefnyddio'r templed cwmpasu i'ch helpu i gwblhau eich asesiad. Gallwch ofyn am gopi o'r templed gan: WFDWales@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk.

Efallai y bydd dal i fod angen asesiad arall ar gynigion sy'n cael eu hepgor o gwmpas yng Ngham 2 er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol eraill. Er enghraifft, efallai y bydd angen i chi gwblhau asesiad rheoliadau cynefinoedd.

Derbynyddion

Hydromorffoleg

Mae hydromorffoleg yn cynnwys 'hydroleg' a 'geomorffoleg', ac yn disgrifio nodweddion a phrosesau ffisegol corff dŵr. Mae'n cynnwys maint, siâp a strwythur y corff dŵr, a llif a maint y dŵr a'r gwaddod. Gall newidiadau i'r hydromorffoleg effeithio ar fioleg ac ansawdd dŵr yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol.

Cynhwyswch hydromorffoleg yn eich asesiad os yw eich cynnig yn cynnwys unrhyw un o'r canlynol:

- Newidiadau i faint llif (e.e. tynnu a gollwng dŵr), cyflymder llif ac amrywioldeb llif (patrymau dŵr cyflymach ac arafach).
- Newidiadau i ffurf a strwythur afon neu lyn (gan gynnwys y gwely, y glannau a'r parth ymylol).
- Newidiadau i barhad yr afon (megis tynnu neu ychwanegu unrhyw rwystrau neu gyfyngiadau eraill o fewn y sianel).
- Newid y cysylltedd rhwng afon a'i gorlifdir.
- Newidiadau i brosesau cludo gwaddodion (erydu, dyddodiad, neu drosglwyddo).
- Newidiadau i'r cysylltiad rhwng dŵr wyneb a dŵr daear, e.e. prosiectau adfer dŵr mwyngloddiau – ceisio datgysylltu dyfroedd wyneb oddi wrth ddŵr daear is-wyneb er mwyn cyfyngu ar lygredd.

Ar gyfer gweithgareddau sy'n effeithio ar ddyfroedd aberol ac arfordirol, rhaid i'ch asesiad hefyd ystyried y canlynol:

- Amodau morffolegol, e.e. amrywiad o ran dyfnder, gwely'r môr, a strwythur y parth rhynglanwol.
- Patrymau llanw, e.e. y cerhyntau cryfaf.
- Llif dŵr croyw.
- Cysylltiad â thonnau.

Mae rhai cyrff dŵr wedi eu dynodi fel rhai sydd wedi eu haddasu'n helaeth yn y cynlluniau rheoli basn afon. Mae'r rhain wedi eu pennu fel amcan o botensial ecolegol da, yn hytrach na statws da. Os yw cyrff dŵr wedi eu dynodi fel rhai sydd wedi eu haddasu'n helaeth, dylech gwmpasu hydromorffoleg yn eich asesiad. Gallwch gael yr wybodaeth hon drwy gael mynediad at y mapiau mwyaf cyfredol ar [Arsylwi Dyfroedd Cymru](#).

Ansawdd dŵr

Gall ychwanegu halogion, tynnu neu ychwanegu gwaddod a/neu lystyfiant, yn ogystal ag addasu llif (e.e. gwanedu) effeithio ar ansawdd dŵr. Gall newidiadau i ansawdd dŵr effeithio ar yr hydromorffoleg a'r ecoleg.

Dylech gwmpasu ansawdd dŵr yn eich asesiad os gallai'r cynnig effeithio ar y canlynol:

- Gloywder dŵr
- Tymheredd
- Halwynedd / dargludedd
- Lefelau ocsigen
- Maethynnau (ffosffad, amonia a/neu nitrogen anorganig tawdd)
- Patrymau microbaidd (dyfroedd aberol ac arfordirol yn unig)
- Asideiddio (ar gyfer afonydd a llynnoedd yn unig)

Hefyd, dylech gynnwys ansawdd dŵr yn eich asesiad os yw eich cynnig yn defnyddio neu'n rhyddhau cemegion (ac na ellir defnyddio mesurau i reoli'r rhain) neu'n newid priodweddau cymysgu'r corff dŵr. Gallai hyn fod drwy ollyngiad newydd, neu newidiadau i ollyngiad presennol, aflonyddu gwaddod neu waith adeiladu. Mae hyn yn angenrheidiol os yw eich cynnig yn cynnwys gweithgaredd sydd:

- yn rhyddhau cemegion ar y [rhestr Cyfarwyddeb Safonau Ansawdd Amgylcheddol](#);
- yn tarfu ar waddodion gyda halogion (ar gyfer dyfroedd aberol ac arfordirol uwchlaw [Lefel Gweithredu 1 Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu](#)).

Os yw'r gweithgaredd yn rhyddhau cemegion ar y rhestr Cyfarwyddeb Safonau Ansawdd Amgylcheddol, o bibell neu ollyngfa, ac os oes ganddo barth cymysgu, dilynwch yr [asesiad risg llygredd dŵr wyneb ar gyfer eich trwydded amgylcheddol – GOV.UK \(www.gov.uk\)](#).

Bioleg

Mae elfennau bioleg yn cynnwys pysgod, infertebratau, macroffyttau (planhigion) a ffytoplancton (algâu un gell).

Dylech gwmpasu bioleg yn eich asesiad os gallai eich cynnig effeithio ar yr elfennau biolegol.

Pysgod

Dylid cynnwys pysgod yn eich asesiad os gallai'r gweithgaredd effeithio ar ymddygiadau pysgod, gan gynnwys symudiad, mudo, silio, neu gyfansoddiad a nifer y rhywogaethau. Er enghraifft, os gallai'r gweithgaredd arwain at y canlynol:

- Rhwystr ffisegol newydd, neu newid i rwystr ffisegol, e.e. morglawdd neu gored.
- Ffrwd gwaddod.
- Sŵn neu ddirgryniad.
- Newid cemegol, e.e. ocsigen tawdd isel ar draws rhan neu'r cyfan o gorff dŵr.

- Newid mewn cynefin, e.e. newidiadau i ardaloedd silio / bwydo / magu pysgod, neu ardaloedd lloches / ysglyfaethu.
- Newid sylweddol i ansawdd, maint, dyfnder neu lif y dŵr yn y corff dŵr.

Dylid cynnwys pysgod hefyd os gallai'r gweithgaredd achosi anaf mecanyddol neu farwolaeth i bysgod trwy wneud y canlynol:

- Llusgo, e.e. tynnu pysgod i mewn i systemau oeri dŵr neu dyrbinau.
- Gwrthdaro, e.e. pysgod wedi eu dal yn erbyn sgriniau malurion.
- Gwaith o fewn afonydd, e.e. olrhain planhigion ar draws neu i fyny'r sianel afon.

Cynefinoedd mewn cyrff dŵr aberol ac arfordirol

Ar gyfer cyrff dŵr aberol ac arfordirol, dylech gynnwys cynefinoedd yn eich asesiad os yw ôl troed eich cynnig yn unrhyw un o'r canlynol:

- 0.5 km² neu fwy.
- 1% neu fwy o arwynebedd y corff dŵr.
- O fewn 500 m i unrhyw gynefin sensitifrwydd uwch (gweler y rhestr isod).
- 1% neu fwy o unrhyw gynefin sensitifrwydd is (gweler y rhestr isod).

Gall ôl troed gynnwys ffrwd gwaddod neu dymheredd. Rhaid i chi ddarparu tystiolaeth o ôl troed eich cynnig.

Ar gyfer carthu, cyfrifwch yr ôl troed fel 1.5 gwaith maint arwynebedd y carthu.

At ddibenion asesu cydymffurfedd Rheoliadau'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr, dyma'r cynefinoedd sensitifrwydd uwch:

- Rîff calch
- Gwelyau cregyn cylchog, cocos ac wystrys
- Morwellt rhynglanwol
- Maerl
- Gwelyau o gregyn glas, gan gynnwys cregyn gleision a chregyn dilyw
- Rîff mwydod gwrychog
- Morfa heli
- Gwelyau gwymon islanwol
- Morwellt islanwol

Dyma'r cynefinoedd sensitifrwydd is:

- Coblau, graean a graean bras
- Gwaddodion meddal rhynglanwol, megis tywod a mwd
- Glannau creigiog
- Meysydd creigiau islanwol
- Rîff creigiog islanwol
- Gwaddodion meddal islanwol

Gellir dod o hyd i'r rhain ar [MapDataCymru](#) wedi eu rhestru fel cynefinoedd a rhywogaethau adran 7.

Hefyd, dylech gynnwys bioleg yn eich asesiad os yw'r cynnig:

- mewn corff dŵr â statws ffytoplancton (ffytoplanc) o lai na da (llynnoedd a dyfroedd aberol ac arfordirol) neu macroalgâu manteisgar (OppMac_sub) (dyfroedd aberol ac arfordirol yn unig);
- mewn corff dŵr sydd â hanes o algâu niweidiol (dyfroedd pysgod cregyn yn unig) – ar gael ar: [wefan Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu](#).

Rhywogaethau estron goresgynnol

Gall rhywogaethau estron goresgynnol gael effeithiau anuniongyrchol ar statws cyffredinol corff dŵr, a all achosi dirywiad neu atal corff dŵr rhag cyflawni ei amcan. Rhaid i chi nodi a oes gan eich cynnig y potensial i gyflwyno neu ledaenu rhywogaethau estron goresgynnol, plâu neu bathogenau (e.e. pla cimwch) i gorff dŵr, neu o'i fewn.

Mae risgiau cyflwyno neu ledaenu rhywogaethau estron goresgynnol yn cynnwys:

- deunyddiau neu offer sydd wedi dod o leoliadau eraill ac, yn benodol, a ddefnyddiwyd mewn neu a deithiodd drwy gyrrff dŵr eraill neu ddyfroedd arfordirol, e.e. llongau sy'n cyrraedd o >1 nm; a
- gweithgareddau sy'n helpu i ledaenu rhywogaethau estron goresgynnol sy'n bodoli eisoes, naill ai o fewn y corff dŵr cyfagos neu i gyrrff dŵr eraill.

Os oes risg y bydd y cynnig yn cyflwyno neu'n lledaenu rhywogaethau estron goresgynnol, rhaid cynnal asesiad / cynllun risg bioddiogelwch hefyd a chyfeirio ato'n glir yn eich asesiad. I gael rhagor o wybodaeth am rywogaethau estron goresgynnol gweler [Atodiad 1](#).

Dŵr daear

Rhaid i chi nodi a ydyw eich cynnig yn cynnwys gweithgareddau sydd â'r potensial i effeithio ar ansawdd neu faint dŵr daear, a'u cynnwys yn eich asesiad. Mae enghreifftiau o weithgareddau o'r fath yn cynnwys y canlynol:

- Newid i lif dŵr daear, e.e. strwythurau tanddaearol sy'n cyfyngu neu'n newid llif sylfaenol i ddŵr wyneb, neu wlyptiroedd sy'n ddibynnol arnynt.
- Tynnu dŵr daear, yn enwedig ger lleoliadau sensitif, e.e. ecosystemau daearol sy'n ddibynnol ar ddŵr daear, ar gael ar [Arsylwi Dyfroedd Cymru](#).
- Newid i ansawdd / cemeg dŵr daear oherwydd mewnbynnau llygryddion i'r ddaear.

Bydd angen i chi ystyried a fydd unrhyw newidiadau hydroddaearegol a achosir gan eich cynnig yn effeithio ar gorff dŵr daear i raddau digon sylweddol fel y gallai achosi dirywiad yn ei statws. Gallwch ddod o hyd i ragor o gyngor am warchod dŵr daear ar ein gwefan: [Cyfoeth Naturiol Cymru / Gwarchod dŵr daear](#).

Ardaloedd gwarchodedig

Mae ardaloedd gwarchodedig o dan Reoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2017 yn cynnwys y canlynol:

- Ardaloedd dŵr yfed gwarchodedig (arwyneb a thir)
- Dyfroedd pysgod cregyn a ddiogelir
- Dyfroedd ymdrochi
- Ardaloedd sensitif (a ddynodwyd o dan y Rheoliadau Trin Dŵr Gwastraff Trefol)

- Dibynnol ar ddŵr:
 - Ardaloedd cadwraeth arbennig
 - Ardaloedd gwarchodaeth arbennig
 - Safleoedd Ramsar

Os yw eich cynnig o fewn ardal warchoddedig, neu wedi ei gysylltu'n hydrolegol â hi, cynhwyswch hyn yn eich asesiad. Hefyd, dylech gynnwys unrhyw ardaloedd gwarchoddedig a allai fod mewn perygl o ganlyniad i'r gweithgaredd, e.e. drwy allyriadau o'r awyr.

Mae'n ofynnol cynnal asesiad rheoliadau cynefinoedd hefyd ar gyfer ardaloedd cadwraeth arbennig, ardaloedd gwarchodaeth arbennig, a safleoedd Ramsar. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru: [Asesiadau rheoliadau cynefinoedd: diogelu safle Ewropeaidd \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#).

[Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am ardaloedd gwarchoddedig yn Atodiad 1.](#)

Gwaith dros dro

Cofiwch, hyd yn oed lle ceir gwaith dros dro, gall yr effeithiau ar ecoleg corff dŵr bara yn hwy. Cysylltwch â Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i gael cyngor pellach.

Derbynyddion eraill

Cyrff dŵr bach nad oes angen adrodd amdanynt, a gwlyptiroedd.

Nid yw rhai cyrsiau dŵr yn cael eu hadrodd yn y cynlluniau rheoli basn afon, nac ar Arsylwi Dyfroedd Cymru. Mae'r cyrsiau dŵr hyn yn dal i gael eu gwarchod o dan Reoliadau'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr 2017, a dylech gymryd yn ganiataol ei fod mewn statws da, neu gymryd camau i ganfod ansawdd presennol yr amgylchedd cyn i chi gynnal eich asesiad.

Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol, heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Ffogydd draenio
- Ffogydd
- Nentydd
- Morlynnoedd lled hallt

Mae cynefinoedd dyfrol eraill fel corysodd, pyllau, gwelyau cyrs ac ati yn chwarae rhan bwysig wrth reoli a storio dŵr o fewn y dalgylch. Gall unrhyw effeithiau ar y cynefinoedd hyn hefyd gael effaith anuniongyrchol ar gorff dŵr sydd wedi ei gysylltu'n hydrolegol. Er enghraifft, gall effeithiau ar ddŵr daear effeithio'n uniongyrchol ar ecosystemau daearol sy'n ddibynnol ar ddŵr daear sy'n gysylltiedig yn hydrolegol. Gallwch ddod o hyd i fap ar [Arsylwi Dyfroedd Cymru](#).

Os gallai eich cynnig effeithio ar gorff dŵr bach nad oes angen adrodd amdano, neu wlyptir, dylech eu cynnwys yn eich asesiad, ystyried mesurau i'w diogelu a, lle bo modd, eu gwella.

Cynefinoedd a rhywogaethau adran 7

O dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae gan bob awdurdod cyhoeddus ddyletswydd i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau.

O dan adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi rhestrau o gynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth. Mae'r rhestrau ar gael ar [wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru](#).

Er y gallai maint neu effaith ffisegol cynllun fod yn fach iawn, gall effeithio'n uniongyrchol ar gynefin neu rywogaeth flaenoriaethol, ac felly dylid ei ystyried fel rhan o'ch asesiad.

Mae rhagor o wybodaeth am rôl gwlyptiroedd wrth helpu i gyflawni'r amcanion amgylcheddol ar gael yn [Atodiad 1](#).

Asesiad cwmpasu Cam 2

Cam 1: Cysylltwch bob gweithgaredd sydd wedi ei gynnwys yn eich cynnig â derbynyddion ar gyfer pob corff dŵr perthnasol

Ar gyfer pob gweithgaredd yn eich cynnig, rhaid i chi asesu a oes llwybr effaith i bob derbynydd – naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

Er enghraifft, gall gwaith ffisegol effeithio ar yr amgylchedd dŵr:

- **yn uniongyrchol** – drwy newid neu ddileu cynefin, a allai yn ei dro effeithio ar boblogaethau pysgod, macroffytâu ac infertebratau; neu
- **yn anuniongyrchol** – drwy effeithio ar bysgod, macroffytâu a/neu infertebratau drwy newid sut y mae eu cynefin yn cael ei greu a'i gynnal, neu drwy newid ansawdd dŵr; mae'r newidiadau hyn yn aml yn digwydd dros gyfnodau hwy.

Lle mae llwybr uniongyrchol neu anuniongyrchol, mae angen i chi ystyried y cysylltiadau rhwng y canlynol:

- Sensitifrydd y derbynydd / derbynyddion.
- Maint yr effaith / effeithiau a achosir gan y gweithgareddau arfaethedig. Ystyriwch y cwmpas gofodol, hyd, amllder a difrifoldeb (graddfa'r newid o'i gymharu â'r llinell sylfaen).
- Hydromorffoleg ac ecoleg.

Defnyddiwch [Arsylwi Dyfroedd Cymru](#) i gael mynediad at wybodaeth am ddsbarthu elfennau ar gyfer pob corff dŵr. Os nad oes dosbarthiad elfen wedi ei ddarparu ar gyfer elfen, cymerwch yn ganiataol ei bod mewn statws da.

Cam 2: Cwmpasu'r cynnig 'ar ei ben ei hun'

Cwestiwn 2.1. A oes risg y gallai cydran o'ch cynnig achosi dirywiad yn statws unrhyw elfen sy'n ffurfio statws corff dŵr?

Lle gellid effeithio'n negyddol ar gorff dŵr gan gydran o'r cynnig, **neu** lle nad oes hyder ynghylch a oes risg bosibl i dderbynydd, dylid cwmpasu'r rhain ar gyfer asesiad pellach.

Ystyriwch unrhyw fesurau y gellir eu cynnwys yn y cynnig ar hyn o bryd a fydd yn sicrhau bod yr effeithiau posibl yn cael eu hosgoi. Er enghraifft, mae gollyngiadau cemegol yn risg, ond gellir eu hepgor o gwmpas trwy fesurau atal llygredd priodol. Lle gellir osgoi effeithiau drwy fesurau sydd eisoes wedi eu cynnwys yn y cynllun, gellir eu hepgor o gwmpas:

- Dylech restru'r holl fesurau osgoi sydd wedi eu cynnwys yn y cynnig.

Cwestiwn 2.2. A oes risg y gallai cydran o'r cynnig atal y corff dŵr neu'r ardal warchoddedig rhag cyflawni ei amcan yn y dyfodol?

Mae angen i chi ystyried a allai'r cynnig wneud y canlynol:

- Atal gweithgareddau gwella rhag digwydd yn y dyfodol os nad yw'r cyrff dŵr perthnasol yn cyflawni statws da. Gallwch wirio'r rheswm dros beidio â chyflawni statws da, a chamau gweithredu lleol, ar [Arsylwi Dyfroedd Cymru](#).
- Lleihau effeithiolrwydd mesurau lleol / cenedlaethol a mesurau lliniaru ar gyfer cyrff dŵr sydd wedi eu haddasu'n helaeth (y ddau ar gael ar [Arsylwi Dyfroedd Cymru](#)), sydd eisoes ar waith.
- Atal ardal warchoddedig rhag cyflawni ei hamcanion.

Os byddwch yn nodi llwybr o'ch cynnig i ardal warchoddedig, rhaid i chi ystyried beth y mae'r ardal wedi ei dynodi ar ei gyfer, a dangos sut na fydd y gweithgaredd yn peryglu amcanion yr ardal warchoddedig a restrir yn y cynllun rheoli basn afon (gweler [Atodiad 1](#)).

Lle mae safonau / amcanion gwahanol yn berthnasol ar gyfer Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2017 ac amcanion yr ardal warchoddedig, rhaid i chi ddefnyddio'r safonau mwyaf llym. Er enghraifft, mae safonau ffosffad mewn afonydd ardal cadwraeth arbennig yn gyffredinol yn fwy llym na safonau Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.

Os gallai eich gweithgaredd effeithio ar ardaloedd cadwraeth arbennig / ardaloedd gwarchodaeth arbennig / safleoedd Ramsar, bydd angen asesiad rheoliadau cynefinoedd hefyd. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru: [Aseidiadau rheoliadau cynefinoedd: diogelu safle Ewropeaidd \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

[Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am ardaloedd gwarchoddedig yn Atodiad 1.](#)

Cam 3: Ystyried y potensial ar y cyd a/neu effeithiau cronrus

Cwestiwn 2.3. A ellir diystyru'r risg o ddirywiad neu atal cyflawni amcanion corff dŵr o ganlyniad i effeithiau ar y cyd a/neu gronnus?

Mae'n bwysig ystyried effeithiau ar y cyd a/neu gronnus pwysau cyfredol mewn corff dŵr gydag effeithiau eich cynnig.

Effeithiau cronrus yw effaith effeithiau tebyg o amryfal weithgareddau ar gorff dŵr. Er enghraifft, gallai hyn fod lle mae gwaddodion morol crog yn cael eu rhyddhau trwy eich gweithgaredd chi a gweithgareddau tebyg eraill.

Effeithiau ar y cyd yw lle gellir effeithio ar gorff dŵr gan un neu ragor o weithgareddau, ond mewn gwahanol ffyrdd. Er enghraifft, tynnu dŵr yn lleihau'r gallu i wanedu, ac yn gwaethgu effeithiau gollyngiad dŵr. Dylid ystyried yr effeithiau cyfun hyn o ran y risg o ddirywiad i'r elfen ansawdd.

Gallwch wirio am drwyddedau eraill ar ein gwefan: [Cyfoeth Naturiol Cymru / A oes gan safle ganiatâd, trwydded neu esemptiad \(Cofrestr Gyhoeddus\)](#), ac mae gwybodaeth ychwanegol ar gael yn y [Catalog data | MapDataCymru \(llyw.cymru\)](#).

Cam 4: Crynodeb cwmpasu cyffredinol

Rhowch grynodedb o unrhyw risgiau posibl o'ch cynnig a allai achosi dirywiad neu atal corff dŵr neu ardal warchoddedig rhag cyflawni ei amcanion, naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd.

Rhaid i chi restru'r holl fesurau osgoi sydd wedi eu cynnwys yn eich cynnig.

Ewch ymlaen i asesiad manwl Cam 3 lle mae cwmpasu yn nodi:

- bod risg y gall y cynnig effeithio'n negyddol ar dderbynyddion neu elfennau o fewn corff / cyrff dŵr a/neu ardaloedd gwarchoddedig; neu
- bod unrhyw ansicrwydd.

Os nad ydych wedi nodi unrhyw elfennau na derbynyddion sydd mewn perygl yn ystod y gwaith cwmpasu, nid oes angen i chi barhau i asesiad manwl Cam 3, ac mae eich asesiad cydymffurfio â Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr wedi ei gwblhau.

Atodiad 1

Amcanion ardal warchoddedig

Rhaid i asesiad cydymffurfedd Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2017 sicrhau na fydd y gweithgaredd / prosiect arfaethedig yn atal yr ardal warchoddedig rhag cyflawni ei hamcanion ([rheoliad 13 o Reoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr](#)).

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am ardaloedd gwarchoddedig:

- yn atodiad trosolwg y cynllun rheoli basn afon;
- y [Gofrestr Ardaloedd Gwarchoddedig](#), sydd ar gael ar ein gwefan;
- yr haenau, sydd ar gael ar [Arsylwi Dyfroedd Cymru](#).

Ardaloedd dŵr yfed gwarchoddedig

Yr amcanion ar gyfer ardaloedd dŵr yfed gwarchoddedig yw sicrhau:

- o dan y drefn trin dŵr a gymhwysir, bod y dŵr yfed a gynhyrchir yn bodloni gofynion Rheoliadau Cyflenwad Dŵr (Ansawdd Dŵr) 2018 a Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2017 er mwyn sicrhau bod dŵr yfed yn rhydd o halogiad.

- y gwarchodaeth angenrheidiol i gyflawni'r nod o osgoi dirywiad yn ansawdd y dŵr mewn ardaloedd dŵr yfed gwarchodedig er mwyn lleihau lefel y driniaeth buro y mae ei hangen.

Dyfroedd pysgod cregyn a ddiogelir (rhywogaethau o bwys economaidd)

Ardaloedd y mae angen eu gwarchod neu eu gwella i gynnal bywyd a thwf pysgod cregyn yw dyfroedd pysgod cregyn a ddiogelir. Yr amcan ychwanegol ar gyfer dŵr pysgod cregyn a ddiogelir yw safon microbaidd o 300 neu lai o E. coli fesul 100 ml o gnawd pysgod cregyn.

Gall effeithiau ar ddŵr pysgod cregyn a ddiogelir ddeillio o'r canlynol:

- Mewnbynnau uniongyrchol o facteria o darddleoedd penodol, tarddleoedd gwasgaredig, neu ailddaliant gwaddodion.
- Canlyniadau anuniongyrchol daliant gwaddodion trwy ailddaliant gwaddodion, a gostyngiad mewn ymbelydredd UV oherwydd mwy o ddaliant gwaddodion.
- Cynnydd mewn gwaddodion mewn daliant a all rhwystro bwydo ac arwain at orchuddio.

Mae mapiau parthau dosbarthu ar gyfer Cymru a Lloegr i'w gweld yma: [Mapiau parthau dosbarthu – Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu \(CEFAS\)](#). Mae'r rhain yn dangos a ydyw'r gwelyau yn nosbarth A, B, B hirdymor, neu C.

Dyfroedd ymdrochi (dyfroedd hamdden)

Y nod ar gyfer dyfroedd ymdrochi yw cyflawni o leiaf safon 'ddigonol' a chymryd mesurau realistig a chymesur i gynyddu nifer y dyfroedd ymdrochi sy'n bodloni'r safonau 'da' neu 'rhagorl'.

Gall effeithiau ar ddyfroedd ymdrochi ddeillio o'r canlynol:

- Mewnbynnau uniongyrchol o facteria o darddleoedd penodol, tarddleoedd gwasgaredig, neu ailddaliant gwaddodion.
- Canlyniadau anuniongyrchol daliant gwaddodion trwy ailddaliant gwaddodion, a gostyngiad mewn ymbelydredd UV oherwydd mwy o ddaliant gwaddodion.

Lle gallai gweithgaredd gael effaith ar ddŵr ymdrochi, rydym yn gyffredinol yn argymhell bod gwaith yn cael ei wneud y tu allan i dymor y dŵr ymdrochi (15 Mai i 30 Medi). Mae ansawdd dŵr ymdrochi cyfredol ar gael ar ein gwefan [Cyfoeth Naturiol Cymru / Ansawdd dŵr ymdrochi](#), neu ar gyfer Cymru a Lloegr yma: [Dod o hyd i ddŵr ymdrochi \(data.gov.uk\)](#).

Rheoliadau trin dŵr gwastraff trefol ardaloedd sy'n sensitif i faethynnau

Amcan cyffredinol y [Gyfarwydddeb Trin Dŵr Gwastraff Trefol](#) a [Rheoliadau Trin Dŵr Gwastraff Trefol \(Cymru a Lloegr\) 1994](#) yw amddiffyn yr amgylchedd rhag effeithiau andwyol gollyngiadau dŵr gwastraff trefol a gollyngiadau dŵr gwastraff o rai sectorau

diwydiannol. Mae hyn i'w gyflawni drwy sicrhau bod gollyngiadau o weithfeydd trin dŵr gwastraff trefol perthnasol yn bodloni'r safonau allyriadau priodol a nodir yn y rheoliadau.

Ar gyfer ardaloedd yr effeithir arnynt gan ewtroffeiddio, mae hyn yn cynnwys mesurau lleihau ffosfforws a/neu nitrogen.

Mae yna hefyd ddyfroedd ymdrochi a dyfroedd pysgod cregyn sy'n ardaloedd sensitif i faethynnau o dan y rheoliadau trin dŵr gwastraff trefol.

Gallwch ddod o hyd i fapiau ar [Arsylwi Dyfroedd Cymru](#).

Ardaloedd cadwraeth arbennig, ardaloedd gwarchodaeth arbennig, a safleoedd Ramsar sy'n ddibynnol ar ddŵr

Yr amcanion ar gyfer ardaloedd cadwraeth arbennig, ardaloedd gwarchodaeth arbennig, a safleoedd Ramsar sy'n ddibynnol ar ddŵr yw cynnal neu adfer nodweddion dynodedig i statws cadwraeth ffafriol. Ceir manylion am safleoedd ar ein gwefan: [Cyfoeth Naturiol Cymru / Canfod ardaloedd o dir a môr gwarchoddedig](#).

Bydd angen [asesiad rheoliadau cynefinoedd](#) ar gyfer gweithgareddau sydd â'r potensial i effeithio ar ardaloedd cadwraeth arbennig ac ardaloedd gwarchodaeth arbennig.

Pwynt allweddol: Mae Rheoliadau'r Gyfarwydeb Fframwaith Dŵr 2017 yn ei gwneud yn ofynnol na fydd gweithgaredd yn atal cyflawni amcanion ardal warchoddedig (rheoliad 13).

Adnoddau defnyddiol eraill

1. Clirio'r Dyfroedd i Bawb. Asiantaeth yr Amgylchedd. Sut i asesu effaith eich gweithgaredd mewn dyfroedd aberol ac arfordirol ar gyfer y Gyfarwydeb Fframwaith Dŵr. [Asesiad y Gyfarwydeb Fframwaith Dŵr: dyfroedd aberol ac arfordirol – GOV.UK \(www.gov.uk\)](#).
2. [Asesiad risg y Gyfarwydeb Fframwaith Dŵr](#). Asiantaeth yr Amgylchedd. Asesu'r risg i amcanion cynlluniau rheoli basn afon o weithgareddau risg llifogydd. Gall cynnal rhai gweithgareddau risg llifogydd effeithio ar ansawdd dŵr yn ein hafonydd, yn ogystal â chynefin ffisegol a'r ecoleg y mae'n ei chynnal.
3. [Nodyn Cyngor 18: Y Gyfarwydeb Fframwaith Dŵr | Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol \(planninginspectorate.gov.uk\)](#).
4. Gallwch ddod o hyd i arfer da ar leihau'r risg o lygredd silt yn [GOV.UK: Materion Gwaddodion; Canllawiau ar gyfer Atal Llygredd](#).
5. [Rôl gwlyptiroedd wrth helpu i gyflawni'r amcanion amgylcheddol](#).

Gall pwysau ar wlyptiroedd naturiol (e.e. addasu ffisegol neu lygredd) arwain at effeithiau ar statws ecolegol cyrff dŵr. Gall gwlyptiroedd gyflawni tair prif swyddogaeth: creu cynefinoedd, gwanhau llif, a gwella ansawdd dŵr. O dan amgylchiadau priodol, gall creu a

gwella gwlyptiroedd gynnig mecanweithiau cynaliadwy, cost-efeithiol, a chymdeithasol dderbyniol i helpu i gyflawni amcanion amgylcheddol y cynllun rheoli basn afon. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth yma: [Nodyn Canllaw 12: Rôl gwlyptiroedd yn y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr](#).

Yn benodol, gall gwlyptiroedd helpu i wneud y canlynol:

- Lleihau effeithiau llygredd
- Cyfrannu at liniaru effeithiau sychder a llifogydd
- Cyflawni rheolaeth arfordirol gynaliadwy
- Hyrwyddo ail-lenwi dŵr daear

Gwybodaeth bellach am rywogaethau estron goresgynnol

Bydd cynnal bioddiogelwch effeithiol gan ddefnyddio'r dull [Edrych, Golchi, Sychu » Yr Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron](#) yn helpu i atal lledaeniad planhigion ac anifeiliaid goresgynnol yn nyfroedd Cymru. Gallwch ddysgu mwy am rywogaethau estron goresgynnol a bioddiogelwch ar wefan Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr: [Hafan » Yr Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron \(nonnativespecies.org\)](#).

Gallai gweithredoedd sy'n achosi lledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol penodol arwain at ymgyfreitha, neu gallant fod yn drosedd (o dan adran 14 o Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981, neu erthygl 3 o Orchymyn Rhywogaethau Estron Ymledol (Gorfodi a Thrwyddedu) 2019).

Bydd cynnal asesiad a chynllun risg bioddiogelwch yn rhoi cyfle i nodi a lleihau'r risgiau hyn. Dylai eich prosiect gynnwys asesiad / cynllun risg bioddiogelwch fel mater o drefn. Gallwch ddefnyddio'r asesiad risg bioddiogelwch a'r templed cynllun i'ch helpu i gwblhau eich asesiad. Gallwch ofyn am gopi o'r templed gan: WFDWales@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk.

Ar gyfer prosiectau cymhleth ar raddfa fawr, efallai y bydd angen datblygu cynllun bioddiogelwch mwy manwl gan ddefnyddio canllawiau ar wefan yr Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron. Gellir lawrlwytho ffurflen asesu risg wag am ddim o: [Storfa ganllawiau » Yr Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron](#).

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am ddosbarthiad rhywogaethau estron goresgynnol yng Nghymru ar [NBN Atlas Cymru – rhywogaethau estron goresgynnol](#).

Gallwch roi gwybod am rywogaethau estron goresgynnol fel a ganlyn:

- Trwy ddefnyddio'r [ap iRecord](#)
- Ar-lein trwy [wefan iRecord](#)
- Drwy ap dwyieithog [LERC Cymru – Cofnodi unrhyw rywogaeth yn y fan a'r lle](#)

Mae gan CNC wybodaeth benodol am glymog Japan: [Cyfoeth Naturiol Cymru / Clymog Japan: yr hyn y mae angen ei wybod](#).

Manylion cyswllt CNC

Ffoniwch ni ar [0300 065 3000](tel:03000653000) (Llun–Gwener, 9am–5pm). Rydym yn croesawu galwadau yn Gymraeg neu Saesneg.

Send us a message on [ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:yholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)

Neu llenwch y [ffurflen i gysylltu â ni](#).